

MATHEW

Y DOETHION YN DOD I ADDOLI IESU

Mathew 2:1-12

Gweithgaredd: Gwneud bagiau bach persawrus i gofio'r anrhegion a ddygwyd at Iesu.

Byddwch angen: Hidlwyr coffi siâp côn, llwyau, powlenni o bot-pourri, pinnau ffelt, rhuban (Mae pot-pourri ar gael yn y rhan fwyaf o siopau crefft).

Paratoi: Rhowch y deunydd crefft o fewn cyrraedd y plant.

Cam wrth gam: **SBEISYS MELYS**

1. Rhowch hidlwr coffi i bob plentyn. Yna gallant eu haddurno gyda phinnau ffelt golchadwy.
2. Helpwch y plant i ddefnyddio'r llwyau i lenwi'r hidlwr at yr hanner â'r pot-pourri.
3. Gall y plant afael yn eu hidlwyr wrth i chi glymu cegau'r bagiau bach â'r rhuban.



NEGES Y WERS

Wedi i'r plant orffen, casglwch y deunydd crefft. Darllenwch Mathew 2:1-12 o Feibl plant hawdd ei ddarllen. Yna gofynnwch:

- **Pam fod pobl yn dod â rhoddion i fabanod a phlant?**
- **Pam ddaeth y doethion â rhoddion i Iesu?**
- **Sut allwch chi ddangos eich bod yn caru Iesu?**

Dywedwch: **Roedd y doethion eisiau addoli Iesu a dangos ei fod yn arbennig ac yn bwysig. Daethant â rhoddion. Sbeisys oedd rhai ohonynt, fel y rhai sydd yn eich bagiau bach chi! Gallwn addoli trwy ganu, gweddi, neu ddysgu mwy am Dduw. Pan rowch chi eich bag bach melyn a sbeislyd i rywun, dywedwch wrthynt gymaint rydych yn caru Iesu!**

SYNIAD DA

Dangoswch dagiau anrheg a gofyn i'r plant enwi'r bobl yr hoffent roi'r bagiau bach iddynt. Ysgrifennwch enwau'r bobl hynny ar y tagiau, a'u gosod ar y bagiau bach. Bydd y plant wth eu bodd o gael rhoi'r anrhegion arbennig a wnaethant hwy eu hunain!


Y DOETHION YN DOD I ADDOLI IESU

Mathew 2:1-12

Gweithgaredd: Creu byrbrydau blasus siâp anrheg i'w rhannu gyda ffrindiau.

Byddwch angen: Bisgedi hirsgwar (e.e. garibaldi), topin wedi'i chwipio, dafnau bach lliwgar i addurno cacen (*hundreds and thousands*), licris coch, llwyau plastig, platiau papur.

Paratoi: Torrwch y licris yn stribedi 7cm. Gosodwch y deunydd o fewn cyrraedd y plant.



Cam wrth gam: **ANRHEGION ARBENNIG**

1. Rhowch fisged i bob plentyn. Gallant dorri'r fisged yn ddau sgwâr a rhoi'r ddau ddarn ar blât.
2. Helpwch y plant i ddefnyddio llwyau i daenu'r topin wedi'i chwipio dros ddau ddarn y fisged.
3. Gall y plant wasgaru'r dafnau bach lliwgar dros y topin wedi'i chwipio, ac yna rhoi'r darnau licris ar y bisgedi i greu'r siâp plws (+).

NEGES Y WERS

Wedi i'r plant orffen, casglwch y deunydd crefft. Agorwch y Beibl i Mathew 2:1-12 a dangoswch y stori i'r plant. Adroddwch y stori yn eich geiriau eich hun. Yna gofynnwch:

- **Pa fath o anrhegion roddodd y doethion i Iesu?**
- **Pam ydym ni'n rhoi anrhegion i bobl rydym yn eu caru?**
- **Pa fath o anrheg allwch chi ei roi i Iesu?**

Dywedwch: **Teithiodd y doethion o bell i ddod â'u rhoddion i Iesu. Roedden nhw eisïau moli Iesu a dangos ei fod yn arbennig. Mae'r byrbrydau hyn yn debyg i anrhegion bychain. Rhowch un i ffrind, a chofiwch ddweud fod Iesu yn rhodd i ni oddi wrth Dduw. Gallwn foli Duw trwy rannu ag eraill, a thrwy ddweud wrth Dduw gymaint rydym yn ei garu.**

SYNIAD DA

Rhowch ychydig o liw bwyd yn y topin wedi'i chwipio er mwyn i'ch "rhoddion" ddisgleirio!

Y DOETHION YN DOD I ADDOLI IESU

Mathew 2:1-12


Gweithgaredd: Creu sêr disglair i gofio sut y dilynodd y doethion seren er mwyn dod o hyd i Iesu.

Byddwch angen: Glanhawyr cetyn metalaidd aur ac arian 12 modfedd o hyd, clymau cebl clir, sisyrnau.

Paratoi: Rhowch y deunydd o fewn cyrraedd y plant.

Cam wrth gam: SEREN RYFEDD

1. Rhowch 6 glanhawr cetyn i bob plentyn i'w dal fel tusw o flodau.
2. Dangoswch i'r plant sut i glymu cwlwm cebl o amgylch canol y bwndel, ac yna gwrthio pen y cwlwm drwy'r twll bach ynddo. Tynnwch y cwlwm mor dynn â phosibl fel bod y glanhawr cetyn "wedi'u clymu" yn y canol. Gall y plant ddefnyddio siswrn i dorri pen rhydd y cwlwm cebl.
3. Gall y plant ledaenu pennau'r glanhawyr cetyn.
4. Gall y plant dorri rhai o'r glanhawyr pibau yn fyrrach i wneud mwy o siâp seren. Gadewch un glanhawr pibau'n hir a'i blygu i wneud dolen fach i hongian y seren.



NEGES Y WERS

Wedi i'r plant orffen, casglwch y deunydd crefft. Darllenwch Mathew 2:1-12 yn uchel o Feibl plant hawdd ei ddarllen er mwyn i'r plant wybod mai rhan o Air Duw yw'r geiriau. Yna gofynnwch:

- **Sut ddangosodd Duw i'r doethion ble i ddod o hyd i Iesu?**
- **Pam fod y doethion wedi teithio mor bell i ddod o hyd i Iesu?**
- **Sut allwn ni ddangos mwy am Iesu i bobl?**

Dywedwch: **Gosododd Duw seren arbennig yn yr awyr i helpu'r doethion i ddod o hyd i Iesu. Daethant i addoli Iesu a rhoi anrhegion iddo. Pan ydym ni'n garedig, yn siarad am Iesu, yn canu caneuon am Iesu, neu'n dangos cariad Duw, bydd eraill yn gweld sut un yw Iesu. Gallwch chi fod yn seren ddisglair sy'n arwain eraill at Iesu!**